O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 416 (Cy.59)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 22, Hen Golwyn i Gyffordd 25, Bodelwyddan, Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2011

*Gwnaed* *14 Chwefror 2011*

*Yn dod i rym* *21 Chwefror 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55), (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd a chyfyngu ar y traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol**(2)**:

1**.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Chwefror 2011 ac enw’r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 22, Hen Golwyn i Gyffordd 25, Bodelwyddan, Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2011.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyd esempt” (*“exempted vehicle”*) yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau

brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 23:59 o'r gloch ar 21 Chwefror 2011 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn..

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu gyrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder uwch na 40 milltir yr awr yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Tra bo symudiadau cerbydau, o dan erthygl 3, wedi eu gwahardd ar y gerbytffordd tua'r gorllewin ond, yn unol ag erthygl 9, heb eu gwahardd ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd:

(a) fynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r dwyrain i unrhyw gyfeiriad ac eithrio i gyfeiriad y gorllewin;
(b) mynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio i gyfeiriad y gorllewin drwy'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sydd â'i led yn 3.6 metr neu'n fwy fynd yn y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio, neu beri reidio, unrhyw feic yn y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5.

8. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff unrhyw gerddwr, yn ystod cyfnod y gwaith, fynd ar droed yn y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5.

9 Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7 ac 8 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny yn weithredol.

10. Mae darpariaethau Rheoliad 13 o Reoliadau Ffyrdd Arbennig (yr A55) (Llanddulas i Fae Colwyn) 1984**(3)** i'r graddau y maent yn gymwys i'r darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2i, drwy hyn yn cael eu hatal yn ystod y cyfryw adegau pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 6 mewn grym.

11. Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 6 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 14 Chwefror 2011

***J Collins***
Dirprwy Gyfarwyddwr
Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy o ran Cymru gan Weinidogion Cymru.

**(3)** OS 1984/1719

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

### Gwahardd cerbydau

i. Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt 1,200 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 23, Llanddulas hyd at bwynt 540 metr i'r gorllewin o ganolbwynt y Gyffordd honno.
ii. Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt 720 metr i'r dwyrain

o ganolbwynt Cyffordd 24, Abergele hyd at bwynt 880 metr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 23a.
iii. Hyd cyfan y slipffordd ymuno tua'r gorllewin yng Nghyffordd 23, Llanddulas.
iv. Hyd cyfan y slipffordd ymadael tua'r gorllewin yng Nghyffordd 23, Llanddulas.
v. Hyd cyfan y slipffordd ymuno tua'r gorllewin yng Nghyffordd 23a.
vi. Hyd cyfan y slipffordd ymuno tua'r gorllewin yng Nghyffordd 24, Abergele.
vii. Hyd cyfan y slipffordd ymuno tua'r dwyrain yng Nghyffordd 24, Abergele.
viii. Y darn hwnnw o ddwy gerbytffordd y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 22, Hen Golwyn to hyd at ganolbwynt Cyffordd 24a.

## ATODLEN 2

### Terfynau'r cyfyngiad 40mya

i. Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r gorllewin o'r bont droed yn Chwarel Penmaen-rhos, Bae Colwyn hyd at bwynt 3,000 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 23.
ii. Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 23, Llanddulas hyd at ganolbwynt Cyffordd 25, Bodelwyddan.

## ATODLEN 3

### Terfynau bylchau'r llain ganol

i. Y bwlch yn y llain ganol sydd rhwng pwynt 1,200 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 23 a phwynt 1,320 metr i'r dwyrain o'r Gyffordd honno.

ii. Y bwlch yn y llain ganol sydd rhwng pwynt 540 metr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 23 a phwynt 660 metr i'r gorllewin o'r Gyffordd honno.

iii. Y bwlch yn y llain ganol sydd rhwng pwynt 880 metr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 23a a phwynt 1,000 metr i'r gorllewin o'r Gyffordd honno.

iv. Y bwlch yn y llain ganol sydd rhwng pwynt 720 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 24 a phwynt 840 metr i'r dwyrain o'r Gyffordd honno.

## ATODLEN 4

### Gwahardd cerbydau sydd â'u lled yn 3.6 metr neu fwy

i. Y darn hwnnw o ddwy gerbytffordd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1,200 metr i'r dwyrain o Gyffordd 23 hyd at bwynt 540 metr i'r gorllewin o'r Gyffordd honno.
ii. Y darn hwnnw o ddwy gerbytffordd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 720 metr i'r dwyrain o Gyffordd 24 hyd at bwynt 880 metr i'r gorllewin o Gyffordd 23a.

## ATODLEN 5

### Gwahardd beiciau pedal a cherddwyr

i. Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1,200 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 23, Llanddulas hyd at bwynt 540 metr i'r gorllewin o ganolbwynt y Gyffordd honno.
ii. Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 720 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 24, Abergele hyd at bwynt 880 metr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 23a.
iii. Hyd cyfan y slipffyrdd ymuno yng Nghyffyrdd 23a a 24.